

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held
at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 20fed Gorffennaf, 2023 at 2.00 pm**

PRESENT: County Councillor Meirion Howells (Chairman)
County Councillor Su McConnel (Vice Chairman)

County Councillors: Rachel Buckler, Laura Wright, Tony Kear, Catrin Maby, Jan Butler, Ian Chandler, Sara Burch, Alistair Neill, Mary Ann Brocklesby, Fay Bromfield, Peter Strong, Paul Griffiths, Jackie Strong, Rachel Garrick, Maria Stevens, Angela Sandles, Ben Callard, John Crook, Tomos Davies, Dale Rooke, Catherine Fookes, Sue Riley, Jayne McKenna, Jill Bond, Louise Brown, Lisa Dymock, Tony Easson, Martyn Groucutt, Simon Howarth, Richard John, Penny Jones, Malcolm Lane, Phil Murphy, Paul Pavia, Maureen Powell, Frances Taylor, Tudor Thomas, Armand Watts and Ann Webb

OFFICERS IN ATTENDANCE:

Matt Phillips	Pennaeth Cyfraith/Swyddog Monitro
Paul Matthews	Prif Weithredwr
Peter Davies	Prif Swyddog, Adnoddau
Jane Rodgers	Pennaeth Gwasanaethau Plant
Will Mclean	Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Amy Gullick	Local Democracy Officer
Frances O'Brien	Prif Swyddog, Cymunedau a Lle
Matthew Gatehouse	Pennaeth Polisi a Llywodraethiant
Ian Saunders	Prif Swyddog Gweithredu, BywydMynwy
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd

APOLOGIES:

County Councillors Jane Lucas, Emma Bryn, Steven Garratt, Christopher Edwards and David Jones

1. Datganiadau o Fuddiant

Eitem 7a: Roedd y Cyngorydd Sir Richard John wedi datgan buddiant personol sy'n dilyn Cod Ymddygiad yr Aelodau gan ei fod yn dal rôl rhan amser fel ymgynghorydd materion cyhoeddus ac mae Cymdeithas y Diwydiant Rheilffyrdd yn gleient.

2. Cyhoeddiad y Cadeirydd

Nodwyd y Cyhoeddiad.

Arweiniodd y Cadeirydd deyrngedau i'r Prif Swyddog, Pobl a Llywodraethu, Matt Phillips, sy'n gadael yr Awdurdod heddiw. Llongyfarchwyd ef ar ei rôl newydd a dymunodd yn dda iddo ar gyfer ei yrfa yn y dyfodol.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor, y Prif Weithredwr ac Arweinwyr y Grwpiau i Matt am ei brofiad, cefnogaeth ac arweiniad, yn enwedig yn ystod y pandemig.

3. Cyflwyniad – Rhyddid y Fwrdeistref

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 20fed Gorffennaf, 2023 at 2.00 pm

Ym mhresenoldeb ei gynrychiolwyr, rhoddodd Cadeirydd y Cyngor Ryddid Sir Fynwy i'r Llang Brydeinig Frenhinol. Gan fynegi diolchgarwch y Cyngor, talodd deyrnged i'r cyfraniad eithriadol y mae swyddogion a gwirfoddolwyr y Llang Brydeinig Frenhinol yn ei wneud i'n cymunedau, cyn-filwyr a'u teuluoedd bob dydd.

Mynegodd Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, y Cyngorydd Sir Peter Strong, falchder y Cyngor o allu cefnogi a hyrwyddo cymuned y Lluoedd Arfog yn Sir Fynwy.

Adleisiodd yr Arweinwyr Grŵp y teimladau hyn.

Roedd Arweinydd y Cyngor wedi cyflwyno sgrôl Rhyddid y Sir.

<https://www.youtube.com/live/4QGeX2H00NE?feature=share&t=95>

4. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 22ain o Fehefin 2023

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2023 fel cofnod cywir

5. RECRIWTIO FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR FYNWY

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau Cynhwysol a Byw yr adroddiad yn atgoffa'r Cyngor o'r gwaith rhagorol a wnaed gan y Fforwm Mynediad Lleol i gynghori'r Awdurdod, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, ar ddatblygiadau mynediad yn eu hardal. Diolchwyd i'r aelodau gwirfoddol am eu gwaith.

<https://www.youtube.com/live/4QGeX2H00NE?feature=share&t=2796>

Yn dilyn pleidlais, penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhelliad:

Bod panel o dri Aelod yn cael ei sefydlu'n barhaol a bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i gyfweild a gwneud penderfyniadau ar benodi aelodau i'r Fforwm Mynediad Lleol, yn amodol ar gadarnhad gan y Cyngor ar bob achlysur.

6. Newid i'r Cyfansoddiad

Cyflwynodd y Prif Swyddog, Pobl a Llywodraethu, yr adroddiad i fabwysiadu'r diwygiadau a gynigiwyd gan y Pwyllgor Safonau i bolisi rhoddion a lletygarwch y Cyfansoddiad i Gyngorwyr.

<https://www.youtube.com/live/4QGeX2H00NE?feature=share&t=3029>

O'i roi i bleidlais, penderfynodd y Cyngor gymeradwyo'r argymhelliad:

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r diwygiadau a'r Cyfansoddiad sydd wedi'i ddiweddarau.

Gadawodd y Cyngorydd Sir Anthony Easson y cyfarfod am 14.51

7. Cynigion i'r Cyngor

8. Cyflwynwyd gan y Cyngorydd Sir Frances Taylor

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 20fed Gorffennaf, 2023 at 2.00 pm

Mae Gorsaf Gerdded Magwyr gyda Gwndy yn gysyniad unigryw ac mae wedi mwynhau cefnogaeth ar draws y grwpiau gan Gyngor Sir Fynwy, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mae Magwyr gyda Gorsaf Gerdded Gwndy yn un o argymhellion yr Arglwydd Burns a Chomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTC) ac mae Cyngor Sir Fynwy yn rhanddeiliad allweddol yn y Bwrdd Cyflenwi Burns. Ar ran MAGOR (Grŵp Gweithredu Magwyr ar Reilffyrdd), rydym yn galw ar y Cyngor hwn i ail-gadarnhau eu hymrwymiad llwyr i'r cysyniad unigryw o'r Orsaf Gerdded ac i gytuno i ysgrifennu at Trafnidiaeth Cymru a Network Rail:

- 1. Cadarnhau bod y Cysyniad o Orsaf Gerdded yn ddigyfnewid.*
- 2. Llobio ymhellach i sicrhau bod Magwyr gyda gorsaf Rhodfa Gwndy yn cael ei chydabod yn "fuddugoliaeth gyflym" i'r Uned Cyflenwi Burns, gan gydnabod bod gan orsaf Magwyr fanteision sylweddol o ran y gallu i gyflawni mewn perthynas â pheirianneg, cost ac yn hollbwysig yr argyfwng hinsawdd.*
- 3. Gofyn am gael gweld dyluniadau'r orsaf yn gynnar cyn eu rhyddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn yr hydref.*

<https://www.youtube.com/live/4QGeX2H00NE?feature=share&t=3249>

Yn dilyn pleidlais, penderfynodd y Cyngor dderbyn y cynnig.

Datganodd y Cynghorydd Sir Richard John fuddiant personol ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth.

Gadawodd y Cynghorydd Sir Alistair Neill y cyfarfod am 15.08

9. Cwestiynau'r Aelodau

9.1. Gan y Cynghorydd Sir Richard John i'r Cynghorydd Sir Sara Burch, Aelod Cabinet dros Gymunedau Cynhwysol ac Egniol

A wnaiff yr Aelod Cabinet ddatganiad am y ddarpariaeth ar gyfer y gymuned sipsiwn a theithwyr yn Sir Fynwy?

<https://www.youtube.com/live/4QGeX2H00NE?feature=share&t=4291>

Gadawodd y Cynghorydd Sir Paul Pavia y cyfarfod am 15.13

10. Gan y Cynghorydd Sir Louise Brown i'r Cynghorydd Sir Martyn Groucutt, Aelod Cabinet dros Addysg

A wnaiff yr Aelod Cabinet dros Addysg ddatganiad am yr ymgynghoriad diweddar ar gludiant o'r cartref i'r ysgol 2024/25?

<https://www.youtube.com/live/4QGeX2H00NE?feature=share&t=4492>

Ymunodd y Cynghorydd Sir Jayne McKenna â'r cyfarfod am 15.21

11. Gan y Cynghorydd Sir Tony Kear i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held
at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 20fed Gorffennaf, 2023 at 2.00 pm**

A wnaiff yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd ddatganiad am safbwynt polisi'r Cyngor ynghylch torri gwrychoedd ac ymylon ffyrdd C a'r rhai gerllaw cyffyrdd a chroesfannau?

<https://www.youtube.com/live/4QGeX2H00NE?feature=share&t=5019>

12. Gan y Cyngorydd Sir Paul Pavia i'r Cyngorydd Sir Martyn Groucutt, Aelod Cabinet dros Addysg

A wnaiff yr Aelod Cabinet dros Addysg ddatganiad am y pryderon parhaus yn Ysgol Cil-y-coed?

<https://www.youtube.com/live/4QGeX2H00NE?feature=share&t=5553>

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 21ain o Fedi 2023

14. Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth i'r pwyllgor ystyried yr eitemau busnes canlynol ar y sail ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth wedi'i heithrio'n cael ei datgelu.

Penderfynodd y Cyngor wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod.

15. Penodi Prif Swyddog y Gyfraith a Llywodraethu a Swyddog Monitro

Penderfynodd y Cyngor benodi James Williams yn Brif Swyddog y Gyfraith a Swyddog Llywodraethu a Monitro.

The meeting ended at 3.46 pm